# Bwletin y Farchnad HCC

Hydref 2022

> “Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y sector cig oen a nifer y ffactorau sy'n dylanwadu ar y farchnad ar hyn o bryd.”
>
> **Glesni Phillips – Dadansoddwr**



*Mae'r sector cig oen wedi bod o dan bwysau yn 2022 oherwydd costau mewnbwn fferm cynyddol, masnach fyd-eang yn cael ei heffeithio gan y rhyfel yn Wcráin, a phwysau chwyddiant ar ddefnyddwyr cig coch. Roedd prisiau pwysau byw ŵyn yng Nghymru yn tueddu i fod i raddau helaeth yn is na lefelau blwyddyn ynghynt yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn, cyn cyrraedd uchafbwynt o 341.2c/kg ym mis Mehefin. Yn ystod y misoedd a ddilynodd, arhosodd y prisiau yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt wrth ddilyn tueddiadau tymhorol. Fodd bynnag, mae'r pris pwysau byw cyfartalog yng Nghymru wedi bod yn amrywio yn fwy diweddar, ac mae bellach yn is na lefelau'r flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf hyn, mae prisiau pwysau byw wedi aros yn uwch na'r cyfartaledd tymor hwy 5 mlynedd ar gyfer 2022 i gyd.*


## CYFLENWAD

Roedd nifer yr ŵyn a defaid a gafodd eu difa ym mis Medi mewn lladd-dai yn y DU yn is o gymharu â'r lefelau mis blaenorol a blwyddyn ynghynt *(ffynhonnell: Defra)*. Mae'n debyg y byddai'r cyfnod galaru 10 diwrnod i'r Frenhines Elizabeth II wedi dylanwadu ar y patrymau lladd arferol, ac wedi cyfrannu at y cwymp o 9% yng nghyfanswm y trwybwn defaid ar y flwyddyn. Roedd nifer yr ŵyn dethol ym mis Medi yn sefyll ar 961,700 y pen – gostyngiad o 6% ar fis Awst, a gostyngiad pellach o 9% ar y cyfnod cyfatebol y llynedd. Er bod nifer yr ŵyn sy'n cael eu lladd ar gyfer y cyfnod 9 mis 3% yn uwch na 2021, mae'r niferoedd mewn gwirionedd tua 8% y tu ôl i'r cyfartaledd tymor hwy ar gyfer y cyfnod cyfatebol. Felly, mae'r cyflenwad yn dynn o'i gymharu â'r cyfartaledd 5 mlynedd.

Mae trwybwn defaid llawn dwf oddeutu 5% yn uwch na 2021, ond yn sylweddol is na'r cyfartaledd 5 mlynedd (tua 25%). Wrth i gostau mewnbwn ffermydd barhau i godi, efallai y byddwn yn profi cynnydd yn nifer y mamogiaid sy'n cael eu lladd wrth i gynhyrchwyr gynyddu eu cyfraddau difa cyn y gaeaf. O edrych ar y flwyddyn hyd yma, roedd cynhyrchiant cig defaid yn gyfanswm o 199,300 tunnell – cynnydd o 4% ar y flwyddyn, ond 7% yn is na'r un cyfnod yn 2020.

## MASNACH

Dim ond hyd at fis Awst mae data masnach CThEM ar gael ar hyn o bryd. Cafodd cyfanswm o 5,800 tunnell o gig defaid ffres/wedi'i rewi ei allforio yn ystod mis Awst – gostyngiad o 7% ers y flwyddyn – oherwydd bod llai o llwythi'n cael eu cludo i'r UE. Gan fod cysylltiad agos rhwng allforion â chynhyrchu, mae'n debyg bod cyfeintiau cynhyrchu statig yn ystod mis Awst wedi dylanwadu ar y gostyngiad mewn allforion. Mae cyfaint y cig defaid a allforiwyd yn ystod y cyfnod 8 mis yn uwch o 14% o'i gymharu â'r flwyddyn gan fod mwy o gynnyrch ar gael i'w allforio (mae'r cynhyrchiant ar gyfer y cyfnod wedi cynyddu 6%). Er bod y cyfaint a allforiwyd yn ystod 2022 hyd yn hyn yn llai na chyfartaleddau hanesyddol, mae'r Bunt yn parhau i fod yn gymharol wan yn erbyn yr Ewro - er gwaethaf rhywfaint o adferiad - ac felly dylai barhau i ddarparu cefnogaeth i fasnachu. Mae'r cyfeintiau a fewnforiwyd hyd yn hyn yn 2022 i fyny 23% ar y flwyddyn, ond profodd cyfeintiau a fewnforiwyd ym mis Awst gwymp o 8% oherwydd llai o fewnforion o Seland Newydd ac Awstralia. Fel arfer, mae mewnforion yn profi gostyngiad tymhorol yr adeg hon o'r flwyddyn wrth i gynhyrchu'r DU gyrraedd uchafbwynt, ac felly gallwn ddisgwyl gweld mewnforion yn lleihau tua diwedd 2022.




## GALW

Wrth i'r argyfwng costau byw gael ei wthio i flaen meddyliau defnyddwyr, mae siopwyr wedi bod yn chwilio am ffyrdd o reoli eu cyllidebau, ac mae'r galw am gig oen ar y farchnad ddomestig wedi bod yn wannach o ganlyniad. Mae data a ryddhawyd gan Kantar yn dangos bod gwariant defnyddwyr ar gig oen mewn siopau ym Mhrydain Fawr yn ystod y cyfnod o 12 wythnos hyd at yr 2il o Hydref wedi profi gostyngiad o 18% o'i gymharu â'r lefelau flwyddyn ynghynt. Roedd y gostyngiad yng nghyfanswm y gwariant yn cael ei yrru'n bennaf gan lai o siopwyr a gostyngiad sylweddol yn y cyfaint, tra bod pris cyfartalog cig oen wedi codi 11% ar y flwyddyn i £11.91/kg. O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae gwerthiant cig oen mewn siopau yn is na'r 3 blynedd flaenorol.

*Mae'r galw am gig oen ar y farchnad fyd-eang yn parhau'n gryf, ac felly mae'n rhoi rhywfaint o gymorth i sector cig oen y DU – yn enwedig y fasnach allforio. Mae'r chwyddiant parhaus yn golygu bod y gost o fwydo a phesgi stoc ar y fferm yn parhau i fod yn uchel, ac felly mae'r gwahaniaeth mewn prisiau rhwng ŵyn stôr ac ŵyn wedi'u pesgi wedi ehangu. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd pwysau chwyddiant yn parhau i gael effaith uniongyrchol ar gyflenwad cig oen ar y farchnad, ynghyd â'r galw gan ddefnyddwyr. Efallai y bydd rhai cynhyrchwyr yn parhau i ddadlwytho anifeiliaid mewn ymgais i arbed gwariant, a gall carcasau ysgafnach ddod ymlaen oherwydd tyfiant glaswellt cyfyngedig yn ystod yr haf a chostau porthiant uchel ar hyn o bryd. Byddai'r ffactorau hyn yn sicrhau cynnydd yn y mewnbwn yn y tymor byr, ond yn arwain at ddiadell lai yn y tymor hwy.*

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn gorffen 22 Hydref

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **246.7c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.4c ar yr wythnos flaenorol,
- + 9.6c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 48.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 198.4c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **439.7c/kg**. Roedd hyn:


- + 2.6c ar yr wythnos flaenorol,
- 31.3c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd prisiau pwysau marw heffrod yn sefyll ar 435.5c/kg (+1.2c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 422.7c/kg (-3.4c), a gwartheg difa ar 335.9c/kg (-1.8c).

### Trwybwn – Medi 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 228,200 pen – cynnydd o 3% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 160,600 pen - i fyny 1% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -1%, heffrod +3%, a theirw ifanc +8%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 341.0kg (-4.3kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 59,700 pen - cynnydd o 6% ar y flwyddyn




## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 22 Hydref

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **217.3c/kg**. Roedd hyn:

- - 3.2c ar yr wythnos flaenorol,
- - 11.6c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 37.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 179.8c/kg).


Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£52.40/pen**. Roedd hyn:


- - 30.0c ar yr wythnos flaenorol,
- £5.00 o dan lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 523.3c/kg (-0.8c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Medi 2022

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 961,700 pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas cig oen cyfartalog = 19.7kg (-0.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 102,000 pen – i lawr 8% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 15 Hydref

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar **203.7c/kg**. Roedd hyn:

- - 0.3c ar yr wythnos flaenorol,
- + 50.2c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 47.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 156.6c/kg).

### Trwybwn – Medi 2022

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 938,500 pen – gostyngiad o 0.3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 918,100 pen – tebyg ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 88.7kg (+0.2kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 20,400 pen – i lawr 21% ar y flwyddyn

